# Cofnodion cryno - Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Lleoliad:

**Committee room 5 - Tŷ Hywel**

**and video conference via Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 15 Mai 2025

Amser: 09.33 - 14.05

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/15091

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Andrew RT Davies AS (Cadeirydd)<br>Hannah Blythyn AS<br>Hefin David AS<br>Samuel Kurtz AS<br>Jenny Rathbone AS<br>Siân Gwenllian AS |
| Tystion: | Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru<br>Rhys Evans, Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur<br>Ellen Fay, Sustainable Soils Alliance<br>Teleri Fielden, Undeb Amaethwyr Cymru (FUW)<br>Huw Irranca-Davies AS, Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig<br>Naomi Matthiessen, Llywodraeth Cymru<br>Fraser Mcauley, CLA |

| | |
|---|---|
| | Abi Reader, National Farmers' Union (NFU) Cymru<br>Andrew Tuddenham, Soil Association<br>James Cooke, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Robert Donovan (Clerc)<br>Nicole Haylor-Mott (Dirprwy Glerc)<br>Katy Orford (Ymchwilydd)<br>Gareth Howells |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Hannah Blythyn AS mewn perthynas ag eitemau 1, 2 a 3, a ymunodd â'r cyfarfod o eitem 4 ymlaen.

1.3 Cafwyd ymddiheuriadau hefyd gan Luke Fletcher AS. Roedd Siân Gwenllian AS yn bresennol fel dirprwy ar gyfer eitemau 1 a 2.

1.4 O dan Reol Sefydlog 17.24A, datganodd Andrew RT Davies AS a Samuel Kurtz AS fuddiant.

## 2 Iechyd Pridd mewn Amaethyddiaeth: Panel 2

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Andrew Tuddenham (Cymdeithas y Pridd Cymru), Rhys Evans (Y Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur), ac Ellen Fay (Sustainable Soils Alliance).

## 3 Iechyd Pridd mewn Amaethyddiaeth: Panel 3

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Abi Reader (NFU Cymru), Teleri Fielden (Undeb Amaethwyr Cymru (FUW)), a Fraser McAuley (Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad (CLA)).

## 4 Iechyd Pridd mewn Amaethyddiaeth: Panel 4

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru.

4.2 Cytunodd y Pwyllgor i fynd ar drywydd sawl pwynt a godwyd yn ystod y sesiwn gyda'r Ysgrifennydd Cabinet mewn gohebiaeth ysgrifenedig.

## 5 Papurau i'w nodi

5.1 Nododd y Pwyllgor y papurau.

5.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru mewn perthynas ag eitem

**5.1 Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Diwygio) 2025**

**5.2 Cais am asesiad o effaith ar yr economi y cau arfaethedig ym maes ieithoedd a diwylliannau ym Mhrifysgol Caerdydd**

**5.3 Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE**

**5.4 Cyfarfod o'r Grŵp Rhyngweinidogol ar gysylltiadau rhwng y DU a'r UE**

**5.5 Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng yr Adran Gwaith a Phensiynau a Llywodraeth Cymru - Cyflawni'r Arloeswr Anweithgarwch Economaidd yng Nghymru ("Trailblazer")**

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

6.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

## 7 Trafod tystiolaeth yn dilyn y cyfarfod

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a glywyd o dan eitemau 2,3 a 4.

## 8 Llwybrau Prentisiaeth: Trafod materion allweddol

8.1 Trafododd y Pwyllgor y papur materion allweddol, a chytunodd i fwrw ati i ddrafftio'r adroddiad.

## 9 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol: Y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg

9.1 Trafododd y Pwyllgor y nodyn cyngor cyfreithiol, a chytunodd i ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes ynghylch y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Atodol.